

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

Chwefror 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Ymchwil@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/3297
Rhif dogfen:15/005

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

Chwefror 2015

Sian Thomas, Gareth Thomas, Stephen Boyce

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



**Y Gwasanaeth
Ymchwil**

Cynnwys

Trosolwg o'r Bil.....	1
1. Cefndir	3
1.1. Cymhwysedd Deddfwriaethol	3
1.2. Y trefniadau presennol ar gyfer penderfynu ar y lefelau staff nyrsio	3
1.3. Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael	4
2. Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): Crynodeb o'r darpariaethau	5
3. Aseiad Effaith Rheoleiddiol.....	8
3.1. Goblygiadau ariannol y Bil	8
3.2. Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant	9
4. Ymateb i'r Bil	10

Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

Rhagarweiniad

Bil Aelod Cynulliad a gyflwynwyd gan Kirsty Williams AC yw'r [Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio \(Cymru\)](#). Cafodd ei gyflwyno ar 1 Rhagfyr 2014 gan Kirsty Williams AC yn dilyn ei llwyddiant mewn balot deddfwriaethol ym mis Rhagfyr 2013. Cynhaliodd yr Aelod ddau [ymgyngoriad](#) mewn ynghylch ei chynigion yn ystod 2014, gyda'r olaf yn ymgynghoriad ar Fil Drafft.

Gwnaeth Kirsty Williams AC ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Rhagfyr 2014 (mae rhagor o fanylion isod).

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru). Ar 18 Tachwedd 2014, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y dyddiad cau ar gyfer adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, sef 10 Ebrill 2015, a'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2 y Pwyllgor, sef 5 Mehefin 2015.

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cynnal [ymgyngoriad](#) ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a ddaeth i ben ar 22 Ionawr 2015. Mae'r Pwyllgor yn trafod y Bil yng Nghyfnod 1 a dechreuodd gymryd tystiolaeth ar 15 Ionawr 2015.

Trosolwg o'r Bil

Nod y Bil yw 'sicrhau bod lefelau digonol o staff nyrsio yn y GIG yng Nghymru er mwyn darparu gofal nyrsio diogel ac effeithiol o safon i gleifion ar bob adeg'.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Bil, yn fras, yn:

- rhoi dyletswydd ar gyrff y gwasanaeth iechyd yng Nghymru i roi sylw i'r pwysigrwydd o sicrhau lefel briodol o staff nyrsio lle bynnag y darperir gofal nyrsio gan y GIG;
- rhoi dyletswydd ar gyrff y gwasanaeth iechyd i 'gymryd camau rhesymol' i gynnal cymarebau gofynnol o ran staff nyrsio, ar wardiau aciwt i oedolion yn y lle cyntaf, ar gyfer:
 - cymarebau gofynnol o ran nyrsys/cleifion; a
 - chymarebau gofynnol o ran nyrsys/gweithwyr cymorth gofal iechyd.

[Mae darpariaeth i'r ddyletswydd hon gael ei hymestyn i leoliadau gofal iechyd eraill yn y dyfodol. Ceir rhagor o fanylion isod];

- ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi'r dulliau/prosesau i'w defnyddio gan sefydliadau'r GIG i benderfynu ar y lefelau staff nyrsio sy'n briodol yn lleol ac sy'n ddiogel bob amser. Bydd y canllawiau'n berthnasol yn y lle cyntaf i wardiau aciwt i oedolion a bydd yn nodi'r cymarebau staffio gofynnol a'r amrywiaeth o sgiliau staff ar gyfer y lleoliadau hyn;
- sicrhau, wrth benderfynu ar lefelau staff nyrsio, bod rolau penodol (prif nyrsys, er enghraifft) yn cael eu hystyried yn rolau ychwanegol neu uwchrifol (supernumerary), a bod ffactorau fel hyfforddi a datblygu staff ac absenoldeb wedi'i gynllunio/heb ei gynllunio yn cael eu cymryd i ystyriaeth mewn modd priodol;
- rhoi dyletswydd ar gyrff y gwasanaeth iechyd yng Nghymru i fonitro i ba raddau y maent yn cydymffurfio â'r gofynion i sicrhau lefel briodol o staff nyrsio, ac i gymryd camau os oes methiannau;
- darparu sail statudol i gleifion a staff allu herio lefelau isel o staff nyrsio.

1. Cefndir

1.1. *Cymhwysedd Deddfwriaethol*

Dywed y Memorandwm Esboniadol (ym mharagraff 7) bod testun y Bil yn dod o fewn y rhestr o bynciau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2008*, a'i fod felly o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae paragraff 9 o Atodlen 7 yn cynnwys:

9. Iechyd a gwasanaethau iechyd

[...] Atal, trin a lleddfu clefydau, salwch, anaf, anabledd ac anhwylder meddyliol. [...] Darparu gwasanaethau iechyd gan gynnwys gwasanaethau a chyfleusterau meddygol, deintyddol, offthalmig, fferyllol ac ategol. Llywodraethiant clinigol a safonau gofal iechyd. Trefnu ac ariannu'r gwasanaeth iechyd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn datgan bod rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael ei restru fel eithriad o dan baragraff 9, ond nad oes unrhyw un o'r darpariaethau yn y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) yn dod o fewn yr eithriad hwnnw (nac unrhyw eithriad arall).

1.2. *Y trefniadau presennol ar gyfer penderfynu ar y lefelau staff nyrsio*

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, ym mis Ebrill 2012, cyhoeddodd y Prif Swyddog Nyrsio ganllawiau ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru, sef Egwyddorion Staffio Cymru Gyfan. Roedd y canllawiau'n nodi'r egwyddorion craidd canlynol:

- ni ddylai nifer y cleifion i bob nyrs gofrestrdig fod yn fwy na saith yn ystod y dydd;
- cymhareb nos o 1 nyrs i 11 o gleifion;
- dylai'r amrywiaeth sgiliau rhwng nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd mewn meysydd aciwt fel arfer fod yn 60/40;
- fel arfer ni ddylai sefydliadau nyrsio ar wardiau aciwt ddisgyn o dan 1.1 cyfwerth ag amser llawn i bob gwely, gan gynnwys 26.9% yn ychwanegol i ganiatáu ar gyfer absenoldeb a hyfforddiant staff;
- defnyddir barn broffesiynol drwy gydol y broses gynllunio;
- ni ddylai'r prif nyrsys ward gael eu cynnwys yn y niferoedd wrth gyfrifo'r gymhareb cleifion i bob nyrs gofrestrdig;
- bydd gweithgarwch y ward a'r galw yn cael eu hystyried wrth bennu lefelau staffio, yn ogystal â nifer y gwelyau, yr amgylchedd a'r modd y lluniwyd y ward;
- ar gyfer manau arbenigol a wardiau gyda gwasanaethau trydyddol, dylid defnyddio safonau proffesiynol, canllawiau a fframweithiau cenedlaethol i benderfynu ar lefelau staff nyrsio.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi **nad yw'r canllawiau yn rhai statudol**. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth mewn tabl ar dudalen 11, sy'n darparu data ar y graddau yr oedd Byrddau Iechyd Lleol yn bodloni'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau hyn yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2013, yn dilyn cais Rhyddid Gwybodaeth.

1.3. Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael

Y diben a nodwyd ar gyfer Adran 1 y Bil yw 'sicrhau bod nyrsys yn cael eu lleoli mewn niferoedd digonol' i wneud y canlynol:

- galluogi gofal nyrsio diogel i gael ei ddarparu i gleifion bob amser;
- gwella amodau gwaith staff nyrsio a staff eraill;
- cryfhau atebolrwydd ynglŷn â diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd cynllunio a rheoli'r gweithlu.

Yn ei **datganiad llafar** wrth gyflwyno'r Bil, dywedodd Kirsty Williams:

The purpose of this Bill is to ensure that nurse staffing levels within the Welsh NHS are sufficient to provide safe, effective and quality nursing care to all patients, at all times. It is about providing nurses with the time to provide compassionate care. This Bill is about transforming the quality of care provided within the Welsh NHS, with the ambition of putting it among world leaders in this field.

Aeth yn ei blaen i ddweud:

The premise of this Bill is simple: nurses with fewer patients to care for can spend more time with each patient, and, as a result, they can provide better care. They have more opportunity to identify and address potential problems with a patient's care, and can play a preventative, rather than simply a reactive, role.

2. Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): Crynodeb o'r darpariaethau

Dim ond pum adran sydd i'r Bil ac nid oes unrhyw Atodlenni; felly nid yw wedi'i rannu'n Rhannau. Caiff darpariaethau sylweddol y Bil eu cynnwys yn adran 2 o'r Bil, a fyddai'n cynnwys adran 10A newydd yn *Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006* fel a ganlyn:

(1) Each health service body in Wales must in exercising its functions—

(a) have regard to the importance of ensuring that registered nurses are deployed in sufficient numbers to enable the provision of safe nursing care, allowing time to care for patients sensitively, efficiently and effectively; and

(b) take all reasonable steps to maintain minimum registered nurse: patient ratios and minimum registered nurse: healthcare support workers ratios in adult inpatient wards in acute hospitals (in accordance with guidance under this section).

Mae'r cyntaf o'r dyletswyddau hyn (defnyddio nifer ddigonol o nyrsys i ddarparu gofal diogel) yn adran 10A(1)(a) (a fewnosodir yn *Neddf y GIG (Cymru) 2006* gan adran 2 o'r Bil) yn berthnasol i bob corff gwasanaeth iechyd y GIG yng Nghymru.

Bydd yr ail ddyletswydd (cynnal lefelau staffio gofynnol), yn adran 10A(1)(b) (a fewnosodir yn *Neddf y GIG (Cymru) 2006* gan adran 2 o'r Bil), yn gyfyngedig i wardiau cleifion mewnol ar gyfer oedolion mewn ysbytai aciwt yn y lle cyntaf. Gellir ymestyn y ddyletswydd hon i amgylchiadau eraill drwy reoliadau, fel yr eglurir ymhellach isod.

Mae'r adrannau eraill yn ymwneud â diben y Bil (adran 1), dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i adolygu ei weithrediad a'i effeithiolrwydd (adran 3), cychwyn (adran 4) a'r teitl byr (adran 5).

Mae'r Nodiadau Esboniadol ar dudalennau 77-78 o'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi eglurhad o ddarpariaethau'r Bil.

Pŵer i wneud rheoliadau

Mae'r Bil yn cynnwys pŵer unigol i wneud rheoliadau. Dyma'r pŵer i wneud rheoliadau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymestyn y ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i fodloni cymarebau staffio gofynnol (a geir yn is-adran 10A(1)(b) a fewnosodir yn *Neddf y GIG (Cymru) 2006* gan adran 2 o'r Bil) 'i leoliadau ychwanegol', ar wahân i wardiau cleifion mewnol ar gyfer oedolion mewn ysbytai aciwt.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

168. [...] Caiff y ddarpariaeth hon ei chynnwys er mwyn gallu ymestyn y ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i gwrdd â'r cymarebau gofynnol a argymhellir i leoliadau heblaw wardiau oedolion sy'n gleifion mewnol mewn ysbytai aciwt, pe byddai digon o dystiolaeth bod estyniad o'r fath yn angenrheidiol. Bydd unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ar ffurf gweithdrefn gadarnhaol. Bernir bod hyn yn briodol gan fod y pŵer yn ymestyn y lleoliadau y caiff y ddyletswydd newydd fod yn gymwys iddynt.

Canllawiau

Mae'r Bil yn cynnwys dyletswyddau helaeth yn is-adran 10A(4) (a fewnosodir yn *Neddf y GIG (Cymru) 2006* gan adran 2 o'r Bil) i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer cyrff y gwasanaeth iechyd ynghylch cydymffurfio â'r ddyletswydd i 'gymryd pob cam rhesymol' i gynnal cymarebau staffio gofynnol o dan adran newydd 10A(1)(b). Mae'r materion i ymdrin â nhw wedi'u nodi'n fanwl yn is-adrannau (5) a (6) o adran 10A:

“(5) The guidance—

(a) must specify methods by which health service bodies may comply with the duty (including methods of the kinds described in subsection (6)), to the extent that the Welsh Ministers consider it practicable;

(b) must specify recommended minimum registered nurse: patient ratios (which individual health service bodies may adjust so as to increase the minimum numbers of nurses for their hospitals);

(c) must specify recommended minimum registered nurse: healthcare support worker ratios (which individual health service bodies may adjust so as to increase the minimum numbers of registered nurses for their hospitals);

(d) must define, or include provision to be used in defining, the terms used in subsection (1)(b);

(e) must include provision for ensuring that the recommended minimum ratios are not applied as an upper limit in practice;

(f) must be designed to ensure that the requirements of the duty are met on a shift-by-shift basis;

(g) must include provision about the publication to patients, to the extent that Welsh Ministers consider it appropriate, of the numbers, roles and responsibilities of nursing staff on duty; and

(h) must include provision which in the opinion of the Welsh Ministers provides the protections mentioned in subsection (7).

(6) The methods mentioned in subsection (5)(a) are methods that in the opinion of the Welsh Ministers—

(a) involve the use of evidence-based and validated workforce planning tools, which are capable of being applied to calculations by reference to individual nursing shifts;

- (b) allow for the exercise of professional judgement within the planning process;
- (c) make provision for the required nursing skill-mix needed to reflect patient care needs and local circumstances; and
- (d) reflect or apply standards, guidelines and national frameworks produced or adopted by professional nursing organisations.”

3. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

3.1. Goblygiadau ariannol y Bil

Costau a manteision sy'n gysylltiedig â'r Bil

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) wedi'i nodi ar dudalennau 41-76 y Memorandwm Esboniadol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael o ran y prif ddarpariaethau yn y Bil, ac yn dadansoddi i ba raddau y byddai pob un o'r rhain yn bodloni'r amcanion polisi a nodwyd.

Mae'n amlinellu dadansoddiad o risgiau, costau a manteision cysylltiedig pob un o'r opsiynau canlynol:

- **Opsiwn 1:** Gwneud dim - parhau i weithio tuag at ganllawiau presennol y Prif Swyddog Nyrsio a gweithredu dull o fesur aciwtedd;
- **Opsiwn 2: Yr opsiwn a ffefrir:** Cyflwyno Bil i sicrhau bod lefelau staff nyrsio o fewn y GIG yng Nghymru yn ddigonol i ddarparu gofal nyrsio diogel, effeithiol o ansawdd i gleifion bob amser.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan bod **cyfanswm costau ychwanegol** y dewis a ffefrir tua £133,000 dros y cyfnod o bum mlynedd ar ôl i'r Bil ddod yn gyfraith. O hynny, byddai cyrff y GIG yng Nghymru yn gyfrifol am gostau adrodd blynyddol o £45,300, a byddai'r £87,500 sy'n weddill yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru. Mae'r costau ychwanegol wedi'u crynhoi yn nhabl 1 isod.

Nid yw manteision y Bil wedi'u mesur, fel sy'n digwydd gyda'r rhan fwyaf o Filiau. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ddata o Gymru, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu rhai o fanteision posibl y Bil, er enghraifft, costau is o ran nyrsys cronfa a nyrsys asiantaeth, a llai o gostau ymglyfreitha oherwydd gofal gwael. Yn ogystal, mae nifer o fanteision posibl eraill yn ogystal, o edrych ar y gwaith a wnaed mewn perthynas â Lloegr gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal (NICE).

Tabl 1: Cyfanswm costau'r ddeddfwriaeth, a chostau ychwanegol, am bum mlynedd ar ôl ei chyflwyno

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Costau untro						
Canllawiau	40,000					40,000
Cyfathrebu	5,000					5,000
Adolygu deddfwriaeth	5,000					5,000
Costau parhaus						
Staffio, gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus	275,000,000	275,000,000	275,000,000	275,000,000	275,000,000	1,375,000,000
Adolygu deddfwriaeth	12,500	0	12,500	0	12,500	37,500
Adroddiadau blynyddol	9,058	9,058	9,058	9,058	9,058	45,290
Cyfanswm y Bil	275,071,558	275,009,058	275,021,558	275,009,058	275,021,558	1,375,132,790
Cyfanswm costau ychwanegol y Bil	71,558	9,058	21,558	9,058	21,558	132,790

Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Memorandwm Esboniadol - y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio \(Cymru\)](#)

Anhawster costio'r Bil gan nad yw'r cymarebau nyrsio wedi'u cynnwys

Pan gyflwynwyd y Bil yn y Cyfarfod Llawn, dywedodd Kirsty Williams, oherwydd nad yw'r cymarebau nyrsio ar wyneb y Bil, ei bod yn anodd llunio costau cadarn. Mae hyn oherwydd y byddai unrhyw gostau ychwanegol yn dibynnu ar gynnwys y canllawiau statudol a fyddai'n cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru pe bai'r Bil yn cael taith lwyddiannus drwy'r Cynulliad ac yn dod yn gyfraith.

Niwtraledd costau'r staff nyrsio ychwanegol a gynigir yn y Bil

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan y byddai costau staffio ar draws wardiau aciwt i oedolion yn aros yr un fath â chynt, sef £275 miliwn y flwyddyn, yn seiliedig ar gyfrifiadau bras a wnaed gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan y Coleg Nyrsio Brenhinol.

Mae tudalennau 42 i 44 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos y byddai costau ychwanegol ar rai Byrddau Iechyd Lleol i fodloni'r Egwyddorion Staffio Cymru Gyfan. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan y byddai'r costau hyn yn cael eu hysgwyddo gan y byrddau iechyd lleol beth bynnag, gan eu bod yn gobeithio bodloni'r safonau hyn erbyn 2016-17. Felly, nid ydynt yn gostau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r Bil. Fodd bynnag, mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi mynegi pryder ynghylch goblygiadau ariannol y Bil, 'a allai fod yn enfawr', yn eu hymateb i'r ail ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Kirsty Williams cyn cyflwyno'r Bil.

3.2. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar dudalennau 70-76 o'r Memorandwm Esboniadol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael o ran y prif ddarpariaethau yn y Bil, ac mae'n dadansoddi i ba raddau y byddai pob un o'r rhain yn bodloni amcanion polisi Kirsty Williams AC.

Mae'n amlinellu risgiau, costau a manteision pob un o'r opsiynau canlynol:

- **Opsiwn 1:** Gwneud dim - parhau i weithio tuag at ganllawiau presennol y Prif Swyddog Nyrsio a gweithredu dull o fesur aciwtedd;
- **Opsiwn 2: Yr opsiwn a ffefrir:** Cyflwyno Bil i sicrhau bod lefelau staff nyrsio o fewn y GIG yng Nghymru yn ddigonol i ddarparu gofal nyrsio diogel, effeithiol o ansawdd i gleifion bob amser.

4. Ymateb i'r Bil

Datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru), 3 Rhagfyr 2014

Yn dilyn [datganiad llafar](#) Kirsty Williams yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Rhagfyr 2014 ar ôl cyflwyno'r Bil, cododd y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Ilefaryr y gwrthbleidiau, ac Aelodau Cynulliad eraill nifer o faterion sy'n berthnasol i'r gwaith craffu a fydd yn cael ei wneud ar y Bil.

Barn y Gweinidog

Yn y [ddadl](#) i geisio cytundeb y Cynulliad ar gyfer cyflwyno Bil ar 5 Mawrth 2014, mynegodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford AC, amheuaeth ai'r llwybr deddfwriaethol oedd y ffordd orau o gyflawni'r amcanion a nodwyd. Ar ôl cyflwyno'r Bil, dywedodd y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn fod Llywodraeth Cymru yn rhannu amcan y Bil ac nad oedd yn gwrthwynebu'r syniad o'i gyflwyno. Roedd y pwyntiau eraill a godwyd gan y Gweinidog yn cynnwys:

- Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn cyflawni'r amcanion a osodwyd ar ei chyfer, a sut y mae'n gwneud hynny mewn ffyrdd sy'n rhagori ar ffyrdd eraill o gyflawni'r un amcan;
- Sut y mae'r cynigion yn ceisio osgoi canlyniadau anfwriadol;
- Sut y mae'r cynigion yn cyd-fynd â'r 'uchelgais' am ddull integredig o ran iechyd a gofal cymdeithasol;
- Bod rhai rhannau o'r gweithlu yn gwrthwynebu cyflwyno'r ddeddfwriaeth [yn enwedig y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi];
- Y pwysigrwydd o gynnal ffocws ar ganlyniadau cleifion (yn hytrach na mewnbynnau ac allbynnau);
- A yw'r holl ffactorau sy'n ymwneud â nyrsio diogel a nodir yn y Bil yn ddangosyddion wedi'u profi, er enghraifft, cyfraddau aildderbyn.

Materion a godwyd gan lefarwyr y pleidiau

Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Goblygiadau ariannol y Bil, yn enwedig effaith ehangach bosibl y cymarebau staffio gofynnol yn economaidd [Darren Millar AC];
- Bod rhai o'r dyletswyddau'n ymwneud â wardiau i oedolion sy'n gleifion mewnol yn hytrach na wardiau i bob claf mewnol [Darren Millar AC];
- Pam fod y gofynion adrodd wedi'u pennu ar gyfer bob dwy flynedd [Darren Millar AC];

- Sut y byddai'r Bil ac unrhyw ganllawiau yn ei sgil yn sicrhau 'hyblygrwydd cyflym' fel y gall wardiau a byrddau iechyd sicrhau y gallai rotâu amrywio ddigon i ymateb i anghenion cleifion ar y wardiau hynny [Elin Jones AC];
- Pam na chafodd lefelau staffio ar gyfer nyrsys sy'n gweithio yn y gymuned eu cynnwys yn y lle cyntaf [Elin Jones AC];
- Y gost o roi'r canllawiau ar waith yn sgil y Bil hwn [Elin Jones AC].